Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymru'n Gweithio

Cyngor wedi'i deilwra a chefnogaeth i'th holl anghenion cyflogaeth.

**Cymru'n Gweithio**
#newiddystori

Cer i **cymrungweithio.llyw.cymru**
Ffonia **0800 028 4844**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

**Gwasanaeth newydd yw Cymru'n Gweithio sy'n galluogi unrhyw un dros 16 oed yng Nghymru i gael mynediad at gyngor a chyfarwyddyd arbenigol er mwyn eich cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau y gallwch eu hwynebu wrth geisio cael gwaith.**

Gallwch newid eich trywydd gyrfa gyda Cymru'n Gweithio drwy gael mynediad at ystod eang o gymorth, gan gynnwys:

- Hyfforddiant penodol ar gyfer swydd
- Chwilio am swydd
- Ysgrifennu CV
- Magu hyder
- Paratoi ar gyfer cyfweliad
- Cymorth gyda gofal plant
- Dod o hyd i gyfleoedd i gael rhagflas ar swydd



## Sut y gall Cymru'n Gweithio fy helpu?

Un pwynt cyswllt yw Cymru'n Gweithio ble y gallwch gael mynediad at bob math o gymorth cyflogaeth. Cewch gyngor sydd wedi'i deilwra ar eich cyfer, beth bynnag eich sefyllfa.

Byddwn yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch i oresgyn y problemau y gallwch eu hwynebu wrth geisio cael gwaith, boed yn help gyda phroblemau trafnidiaeth neu ofal plant neu'n gymorth gyda chymhelliant neu i reoli problemau iechyd.

## Sut mae'n gweithio?

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, bydd eich cynghorydd yn gofyn ychydig o gwestiynau er mwyn dod o hyd i'r pecyn cymorth gorau ar eich cyfer, a bydd yn gweithio gyda chi i greu Cynllun Gweithredu sydd wedi'i deilwra i gyd-fynd â'ch anghenion.





# Darganfod Mwy

Chwilia am Cymru'n Gweithio neu ffonio **0800 028 4844**